

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Mai 10fed 2016 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Davies (cadeirydd), Jean Roberts, Geraint Jones, Gwilym Davies, Euros Puw, Gwynedd Jones, a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Arwel Davies, Gwynfryn Williams, Rhys Richards, a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cyfarfod Blynyddol.

Cyfrifon 2015-16.

Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2015-16 gan y clerch, a chafwyd hwy yn gywir.

Archwiliad Mewnol y Cyngor.

Adolygwyd trefniadau archwiliad mewnol y Cyngor a chafwyd yn gywir. Adroddodd y clerch bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd a chytunwyd i apwyntio John Roberts i wneud yr archwiliad mewnol fel yr arfer.

Adolygu Asedau, Polisiâu a Rheoliadau'r Cyngor.

Cytunwyd bod y Rheoliadau Mewnol a'r Asesiad Risg presennol yn gywir. Adolygwyd y rhestr asedau a chytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws yn Rhyduchaf a Parc ac adrodd yn nol ar eu cyflwr erbyn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd i fabwysiadu'r newidiadau i'r 'Cod Ymddygiad' a ddaeth i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Roedd newidiadau i'r Rheoliadau Ariannol i'w mabwysiadu ond gan fod Un Llais wedi adalw eu model cytunwyd i'w fabwysiadu pan fydd y model cywir ar gael.

Etholwyd y cynrychiolwyr canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies ac Arwel Davies.

Llywodraethwyr Ysgol Bro Tryweryn: Geraint Davies

Cyfarfod Misol.

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Llythyrau diolch.

Derbyniwyd llythyrau yn diolch am y cyfraniadau ariannol a ddosbarthwyd gan y Cyngor ym mis Mawrth.

Cyfarfod Cynghorau Cymuned a Chyngor Gwynedd.

Trafodwyd yr hyn a gyflwynwyd i'r cynghorwyr yn y cyfarfod.

Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

Cae Chwarae Parc.

Cafwyd cadarnhad bod gweithlu Cyngor Gwynedd wedi trwsio'r ffens derfyn.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd

i) Derbyniwyd llythyr yn egluro'r toriadau i'r gyllideb mae'r adran llwybrau cyhoeddus yn ei wynebu.

b) Partneriaeth Penllyn.

i) Derbyniwyd copi o gofnodion y cyfarfod i drafod Ffair Y Bala.

c) Un Llais Cymru.

- i) Un Llais Cymru - Llythyr yn diolch i'r Cyngor am ail ymaelodi a ffurflen i anfon manylion cynrychiolwyr y Cyngor ar Bwyllgorau Ardal Meirionnydd. Cytunwyd i beidio enwebu person penodol ond anfon cynrychiolydd os oedd angen pan fyddai'r Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
- ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn Nhywyn ar y 25/5/16.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

NP5/72/161E - Codi garej ac ystafell bwyler biomas. Tyn Ffordd, Rhyduchaf.

NP5/72/161D - Dymchwel allandy, codi estyniad a throsi allandy i 2 uned llety gwyliau a gosod tanc septig newydd. Tyn y Ffordd, Rhyduchaf.

NP5/72/183B - Trosi sgubor i ffurfio estyniad i dy gan gynnwys codi lefel y bondo, adeiladu estyniad cefn unllawr, gosod 2 ffenestr dormer a 4 ffenestr to. Cefn Bodig, Parc.

Gan fod y Parc Cenedlaethol eisiau ymateb cyn y cyfarfod roedd y clerc wedi cysylltu â'r cynghorwyr i drafod y ceisiadau a chytunwyd i'w cefnogi.

Cafwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/T112B - Adeiladu estyniad i'r to (cynllun diwygiedig). Tŷ Hen, Rhyduchaf.

NP5/72/157B – Dyluniad a gosodiad diwygiedig ar gyfer ty wedi ei ganiatau eisioes. Tyddyn Phillip, Frongoch.

NP5/72/234A – Cynllun trydan dwr – Isafon i Llyn Celyn ger Weirglodd Ddu, Capel Celyn.

NP5/72/134J – Adeiladu ystafell wydr. 5 Maes Gwyn, Rhyduchaf.

Materion Ariannol.

Derbyniwyd rhandal cyntaf y Praesept - £1,650.

Rheolydd Pensiynau.

Derbyniwyd llythyr yn atgoffa'r Cyngor o'i dyletswyddau cyfreithiol newydd i ymwneud a chofrestru staff ar gyfer cynllun pensiwn. Roedd y clerc wedi gwneud ymholiadau ac nid oedd angen i'r Cyngor cymryd unrhyw gamau cyn y dyddiad gweithredu ym mis Mai 2017.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

John Roberts (archwilio cyfrifon 2015-16)

Zurich (Yswiriant)

Derbyniwyd cais i gyfrannu ariannol at weithgareddau elusennol a lles Canolfan yr Henblas. Cyn trafod unrhyw gyfraniad cytunwyd i ofyn am eu mantolen ariannol a chynllun busnes diweddara. Cynigwyd y dylid trefnu cyfarfod rhwng cynghorau Penllyn er mwyn cael diweddariad ar waith Cwmni Pum Plwy Penllyn. Gofynnwyd i'r clerc i drafod y cynnig yma gyda chydlynnydd y Cwmni.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mehefin 14eg yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.